# Ysbyty Aberbîg

Gwasanaethau Arbenigol Diogel i Ddynion

Penydarren Road, Aberbîg, Abertyleri, NP13 2DA

**Ffôn: 01495 325 900**
**E-bost:** **aberbeeg@elysiumhealthcare.co.uk**





## Trosolwg o'r Gwasanaeth

**Partner Dibynadwy ym maes Iechyd Meddwl a Gofal Diogel**

Mae Ysbyty Aberbîg yn darparu gwasanaethau diogelwch lefel isel a chanolig i ddynion sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Rydym ni'n canolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ystyriol o drawma, ac yn cydbwyso rheoli risg, adferiad, a'r arfer lleiaf cyfyngol er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol.

Mae Ysbyty Aberbîg wedi ei leoli yng Nghaerffili, De Cymru, ac yn cynnig amgylchedd strwythuredig a diogel i unigolion gael gofal cynhwysfawr gan dîm amlddisgyblaethol ymroddgar.

## Model Gofal

### Ein Wardiau Arbenigol:

**Ward Bevan** (diogelwch isel) a **Ward Taliesin** (diogelwch canolig)

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn goruchwylio'r ddwy ward ac yn sicrhau bod gan yr ysbyty ddull cyson sy'n cefnogi sefydlogrwydd y claf wrth iddynt symud o wasanaethau diogelwch canolig i wasanaethau diogelwch lefel isel.

Mae Ward Bevan (diogelwch lefel isel) yn defnyddio model cynllunio therapiwtig sy'n ddeuddeg wythnos o hyd. Mae hyn yn golygu bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth amserlen therapiwtig sydd wedi ei chreu ar y cyd gan y tîm amlddisgyblaethol ac sy'n cynnwys targedau ystyrlon i'w cyflawni yn ystod y ddeuddeg wythnos. Ar ôl i'r ddeuddeg wythnos ddod i ben, mae'r amserlen yn cael ei hadolygu a'i newid er mwyn adlewyrchu datblygiad y claf a'r hyn mae wedi ei gyflawni.  Mae pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael cyfle i ddatblygu cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol gyda'u Nyrs Sylfaenol a'r tîm amlddisgyblaethol.

Mae Ward Taliesin (diogelwch lefel canolig) yn defnyddio'r un model gofalu â'r ward ddiogelwch lefel isel. Mae ceisio defnyddio'r arferion lleiaf cyfyngol yn rhan ganolog o'n gofal.





## Pwy rydym yn eu cefnogi

Mae Ysbyty Aberbîg yn gofalu am ddynion rhwng 18 a 65, lle caiff un o'r canlynol eu hystyried yn berthnasol iddynt:

- Unigolyn sydd yn agored i gael ei gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007), a Chod Ymarfer Cymru
- Unigolyn sydd ag anghenion iechyd meddwl dynodedig, mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod hefyd ag anabledd dysgu, diagnosis o awtistiaeth neu anhwylder personoliaeth.
- Unigolyn sy'n symud o'r System Cyfiawnder Troseddol neu Ysbyty Diogelwch Uchel

Mae Ysbyty Aberbîg yn derbyn atgyfeiriadau diogelwch isel gan Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer gofal diogelwch canolig i unigolion sydd wedi eu hasesu a'u atgyfeirio atynt gan y Cydbwyllgor Comisiynu (JCC) neu'r Cyd-ddarparwyr (PC).

## Beth rydym yn ei wneud

Yn Aberbîg, rydym yn arddel model gofal sy'n ystyriol o drawma, yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn rhoi pwyslais ar adferiad i greu cynlluniau triniaeth holistaidd sydd wedi eu teilwra i'r cleifion. Mae pob aelod o'r tîm wedi cael hyfforddiant mewn gofal sy'n ystyriol o drawma, ac mae hyn yn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaethau yn cael cymorth tosturiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r tîm clinigol yn rhoi mewnbwn seicolegol, ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR)
- Therapi Tosturiol
- Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT)
- Rhaglen Bywyd Heb Drais (LMV-E)
- Therapi sy'n ystyriol Sgemâu

Mae'r ymyriadau eraill rydym yn eu cynnig yn cynnwys:

- Gwaith sy'n canolbwyntio ar drosedd
- Camddefnyddio sylweddau
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Ymdopi, rheoli emosiynau, sgiliau perthnasoedd a chymdeithasol
- Atal llithro'n ôl

## Y Tîm



•Y tîm amlddisgyblaethol yn Ysbyty Aberbîg

- Cyfarwyddwr Ysbyty
- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Seicolegydd
- Tîm therapi galwedigaethol
- Gweithiwr Cymdeithasol

## Cyfleusterau a phwyslais ar adsefydlu

Rydym yn cynnig amgylchedd modern sydd â digon o offer i gefnogi diogelwch ac adferiad cleifion. Mae gan bob claf ystafell wely en-suite, ac mae croeso iddynt addurno'r ystafell at eu dant. Mae gan bob ward ystafell fwyta, ystafell gemau sydd â bwrdd pŵl a gemau cyfrifiadur, ac ystafell luniaeth. Mae'r ystafelloedd cymunedol yn olau ac mae digon o le ynddynt. Maent wedi eu haddurno â lliwiau tawel, ac mae celfi cyfforddus newydd ynddynt. Mae gan gleifion fynediad at ardal therapi, cegin i ymarfer coginio, ardal gelf a chrefft, ac ardal lesiant sydd ag adnoddau ymarfer corff megis peiriant rhedeg, peiriant rhwyfo, a beic. Mae cyfrifiaduron ar gael at ddibenion addysgol neu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Y tu hwnt i'r ystafell fyw, mae gardd therapiwtig ddiogel.



Mae'r gwasanaeth diogelwch canolig wedi ei ddylunio i ddarparu amgylchedd cyfforddus a therapiwtig, ac mae'r adeilad wedi ei ysbrydoli gan y modelau agored llwyddiannus yn Denmarc ac UDA. Mae'r dull holistaidd hwn yn canolbwyntio ar y claf, a'r nod yw cefnogi adferiad a llesiant.

Mae gan y ddwy Ward ystafell aml-ffydd, sy'n ofod tawel i fyfyrio neu addoli. Mae Caplan yn ymweld â'r ysbyty yn wythnosol, ac yn darparu cymorth bugeiliol i unrhyw un sydd â diddordeb.

Defnyddwyr y gwasanaeth sy'n gyfrifol am orsaf radio'r ysbyty, sef AIRWAVES, a nhw hefyd sy'n gweithio yn y caffi ar y safle. Mae'r mentrau hyn yn chwarae rhan allweddol wrth rymuso'r unigolion i wella, drwy roi'r cyfle iddynt fagu hyder, a bod yn annibynnol a chymdeithasol.

Ar ben hyn, mae'r geifr a'r mulod ar y safle yn rhoi ymdeimlad o bwrpas i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Elysium Healthcare

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, braille, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais**

I gael rhagor o wybodaeth, i drefnu ymweliad, neu i wneud atgyfeiriad, ffoniwch ein llinell atgyfeirio 24 awr ar: **0800 218 2398**
neu e-bostiwch: **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

**elysiumhealthcare.co.uk**

Part of Ramsay Health Care

1709/0425